

Pythefnos Masnach Deg

27 Chwefror i 12 Mawrth 2017



Ydych chi fel capel yn cynllunio marcio'r pythefnos?

Cymryd rhan i dynnu sylw at ffordd i sicrhau prisiau teg i gynhyrchwyr rydym yn dibynnu arnynt.

Dwi'n sgwennu hwn cyn y pythefnos fel y bo cyfle gennych i wneud!

Siom o'r mwyaf ydy i o i mi i ni fethu hyd yma fel enwad i ennill statws Masnach Deg. Beth mae yn ddweud amdanom dwedwch?

Ydy hyn yn golygu nad yw'r Pythefnos ar ein calendr?

Rydym yn credu mewn cyfiawnder onid ydym?

Mae cyfiawnder yn egwyddor ganolog o'n fydd Gristnogol. Sefyll dros y tlawd a'r bregus yn union fel y gwnaeth Iesu yn ystod ei weinidogaeth. Sicrhau nad ydym yn ecspluoetio eraill.

Mae cefnogi Masnach Deg yn un o'r ffyrdd symlaf y gallwn wneud gwahaniaeth a chymryd safiad. Oherwydd mae Masnach Deg yn sicrhau fod:

- prisiau teg a chyfiawn yn galluogi ffermwyr a gweithwyr yng ngwledydd tlotaf y byd i fwydo eu teuluoedd a thalu am addysg a gofal iechyd.
- premiwm cymdeithasol Masnach Deg yn galluogi cymunedau i sicrhau dŵr glân, addysg, cludiant yn lleol.
- y ffermwyr yn diogelu'r amgylchedd

mewn ffordd gynaliadwy.

- safonau teg i weithwyr a phwyslais ar iechyd, diogelwch ac ar eithrin arweinyddiaeth ymhlith dynion a merched.
- plant ddim yn gorfod gweithio.

Mae prynu nwyddau Masnach Deg dros y blynyddoedd wedi newid bywydau miloedd



'Er ichwi aberthu imi boeth offrymau a bwydo ffrymau, ni allaf eu derbyn; ac nid edrychaf ar eich heddoffrymau o'ch pasgedigion. Ewch â swm eich caneuon oddi wrthyf; ni wrandawaf ar gainc eich telynu. Ond llifed barn fel dyfroedd a chyfiawnder fel afon gref.' Amos 5

o bobl. Mae hefyd wedi rhoi pwysau ar gwmnïau mawr i feddwl am iawnderau a thegwch eu gweithlu yn y trydydd byd.

Mae gan fasnach deg ymgyrch newydd – aur Masnach Deg. Cawn glywed mwy yn y man am hyn yn y man.

Rydym yn dathlu Gŵyl Dewi ynghanol Pythefnos Masnach Deg – gwnewch y pethau bychain medda fo ...

Beth am sicrhau fod eich capel eleni yn defnyddio nwyddau Masnach Deg pryd bynnag y gallant? Peidiwch oedi.

Nia Higginbotham

Adnoddau Ychwanegol

Dyma rai llyfdd ar y we lle gallwch ddarganfod adnoddau ar gyfer gwasanaethau Masnach Deg.

- <http://fairtrade.london.anglican.org/Main%20pages/prayerandworship.htm>
- www.traidcraft.co.uk/resources
- fairtradewales.com/christian-aid-launch-fairtrade-fortnight-assemblies
- sthelenwitton.org.uk › Mission & Service › Christian Aid
- caford.org.uk/Pray/Prayer-resources
- <https://www.fairtrade.org.uk/~media/fairtradeuk/get%20involved/documents/faith>
- <http://www.ccow.org.uk/worshi/ccow-prayer-resources/praying-and-preaching-about-fair-trade/>
- <http://fairtradewales.com/we/fair-trade-assembly-and-presentation-by-christian-aid>

Corwynt Cariad

Ar ddydd Sul, Ionawr 15fed, daeth Cheryl Williams atom i Gapel y Groes, Wrecsam i sôn am ei thait h i Ynysoedd y Philipinas gyda Chymorth Cristnogol. Cawsom sgwrs ddifyr a llawn gwybodaeth ac rydym yn awr wedi lansio'r apêl 'Corwynt Cariad'. Rydym i gyd yn awyddus iawn i wneud ein rhan i godi cymaint o arian â phosibl ar gyfer yr apêl.

Yn y llun gwelir Cheryl gyda'n gweinidog, y Parch Robert Parry yn dangos un o'r matiau bwrdd hardd rydym eisoes wedi'i brynu ar gyfer y capel.

Menna Davies



Wnaethoch chi ddatrys y pos?

Beth oedd ar goll? C o _ _ _ _ t Cariad. Ie – y llythyrau r w y n. Ychwanegwch y collnod ac fe gewch y gair 'Rwy'n'!

- Rwy'n cefnogi Cymorth Cristnogol
- Rwy'n bwriadu helpu pobl y Philipinas
- Rwy'n mynd i chwarae fy rhan yn Apêl 2017

Gobeithio fod yr uchod yn wir am bob aelod o'n heglwysi.

Ydych chi wedi dechrau cynllunio?

Ydych chi wedi archebu un o'r matiau bwrdd ar gyfer eich capel?

Os oes gennych aelodau coll (dim yn mynychu oedfaon)? Beth am anfon cerdyn gweddi atynt ac egluro beth yw'r gobaith eleni.

Diolch am bob cefnogaeth,

Catrin Roberts

